

Storio a Phrosesu Data | Mat Adolygu

Meddalwedd defnyddiol

- Mae meddalwedd defnyddiol yn fath o feddalwedd system. Mae'r math hwn o feddalwedd yn galluogi defnyddiwr i gynnal, rheoli a llywio adnoddau cyfrifiadurol.

- Fel arfer, gellir cael mynediad at feddalwedd defnyddiol trwy ddewislen / panel rheoli penodol yng ngosodiadau'r system gweithredu.

Diogelwch

- Bydd system gweithredu'n cynnwys rhai nodweddion sy'n ceisio cadw'r data a'r rhaglenni sydd wedi'u storio yn y system yn ddiogel.

- Fel arfer, mae'r nodweddion diogelwch sydd wedi'u cynnwys yn y rhan fwyaf o systemau gweithredu yn feddalwedd gwrth-feirws, mur cadarn a chyfleuster cyfrinair.

Cywasgu

- Mae pŵer prosesu a gofod storio'n bwysig iawn ar system cyfrifiadurol.

- I fanteisio'n llawn ar y ddau, mae angen lleihau maint ffeiliau er mwyn gallu eu trosglwyddo'n gyflym a defnyddio llai o ofod storio. Er mwyn gwneud hyn, gellir defnyddio cywasgu er mwyn lleihau neu ddileu rhannau o ffeil.

Sut mae system gweithredu'n darparu rhyngwyneb i ddefnyddwyr

 Caniatáu copïo / dileu / symud / didoli / chwilio am ffeil neu ffolderi

 Galluogi mynediad at osodiadau'r system, fel caledwedd

 Darparu rhyngwyneb llinell orchymyn

 Caniatáu i ddefnyddwyr agor mwy nag un ffenestr ar yr un pryd

 Darparu negeseuon gwallau / help i'r defnyddiwr

 Galluogi addasu'r rhyngwyneb e.e. newid cefndir / gosodiad y bwrdd gwaith

 Caniatáu i ddefnyddwyr newid o dasg i dasg (rhaglenni / ffenestri)

Monitro systemau

- Mae monitro systemau yn golygu defnyddio darn o galedwedd neu feddalwedd i fonitro adnoddau a pherfformiad system gyfrifiadurol.

- Er enghraifft, mae Windows 10 yn cynnwys offeryn i ddefnyddwyr sy'n dangos iddynt sut mae adnoddau yn cael eu defnyddio dros amser trwy gynrychiolaeth graffeg.

Rheoli tasgau

- Rheoli tasgau yw'r broses o weld pa dasgau y mae system gweithredu yn eu cyflawni ar hyn o bryd.

- Os bydd rhaglen benodol yn stopio ymateb neu'n araf, y ffordd orau o ddelio â hyn yw cau'r dasg gan ddefnyddio'r feddalwedd rheoli tasgau a ddarperir gan y system gweithredu.

Gwneud copi wrth gefn

- Mae copïau wrth gefn yn golygu creu a storio copïau o ffeiliau rhag ofn y bydd cyfarpar yn methu neu gwneir niwed arall a allai achosi colli data.

- Caiff copïau wrth gefn o ffeiliau eu creu er mwyn gallu adfer data a gollir unrhyw bryd.

HCI

- Rhyngweithio dynol-cyfrifiadurol (HCI) yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio cyfathrebu rhwng defnyddiwr a system cyfrifiadurol.

- I ganiatáu i berson a chyfrifiadurol gyfathrebu â'i gilydd, mae angen rhyngwyneb o'r enw rhyngwyneb dynol-cyfrifiadurol.

- Mae gwahanol ryngwynebau'n cael eu darparu gan y system gweithredu a gellir eu hadnabod trwy'r arddull cyfathrebu maent yn eu defnyddio.

Mathau o HCI

GUI

CLI

Wedi'i yrru gan ddewisleni

Wedi'i yrru gan y llais

Sensitif i gyffwrddiad

Rheoli Adnoddau

Mae system gweithredu'n rheoli adnoddau cyfrifiadurol yn y ffyrdd canlynol:

- Rheoli dyfeisiau perfformio fel dyfeisiau mewnbyn ac allbwn

- Rheoli argraffu gan ddefnyddio sbwlio

- Rheoli storio wrth gefn

- Rheoli cof (RAM)

- Rheoli prosesau

- Rheoli diogelwch

Y system gweithredu yw'r feddalwedd sy'n rheoli system cyfrifiadurol. Prif rôl system gweithredu yw gweithredu fel byffer rhwng y defnyddiwr ac elfennau ffisegol system cyfrifiadurol. Un o'i brif swyddogaethau yw rheoli adnoddau cyfrifiadurol.

Storio a Phrosesu Data | Geirfa

System Gweithredu

- Y system gweithredu yw'r feddalwedd sy'n rheoli system cyfrifiadurol.

Sbwlio

- Sbwlio yw'r broses o anfon data at ardal storio dros dro yng nghof y cyfrifiadurol.

Cywasgu

- Cywasgu yw'r dull y mae systemau cyfrifiadurol yn ei ddefnyddio i leihau ffeiliau trwy leihau nifer y didau a ddefnyddir i storio data.

Cyfannu

- Cyfannu yw'r broses o gyfunu ffeiliau darniog ar yriant caled defnyddiwr.

Adnoddau

- O ran systemau cyfrifiadurol, mae'r term "adnoddau" yn cyfeirio at unrhyw beth y mae gan system cyfrifiadurol fynediad ato e.e. gyriant disg, peiriant argraffu, cysylltiadau rhwydwaith ac ati.

Meddalwedd defnyddiol

- Mae meddalwedd defnyddiol yn fath o feddalwedd system. Mae systemau gweithredu'n defnyddio rhaglenni o'r enw cyfleustodau i ganiatáu i ddefnyddiwr reoli, cynnal a chadw trefn ar adnoddau cyfrifiadurol.

Monitro systemau

- Mae monitro systemau yn golygu defnyddio darn o galedwedd neu feddalwedd i fonitro adnoddau a pherfformiad mewn system gyfrifiadurol.

Rheoli tasgau

- Rheoli tasgau yw'r broses o weld pa dasgau y mae system gweithredu yn eu cyflawni ar hyn o bryd.

Rhyngwyneb

- Mae rhyngwyneb yn ffordd syml o ganiatáu i bobl ryngweithio gyda system gyfrifiadurol, sef, yn y bôn, wyneb system gweithredu.

GUI

- Mae rhyngwyneb defnyddiwr graffigol (GUI) yn fath o rhyngwyneb sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ryngweithio gyda system gyfrifiadurol trwy eiconau graffigol.

CLI

- Mae rhyngwyneb llinell gorchymyn (CLI) yn rhyngwyneb sy'n seiliedig yn gyfan gwbl ar destun sy'n caniatáu i ddefnyddiwr gyfathrebu â system gyfrifiadurol trwy deipio gorchymynion.

HCI

- Rhyngweithio dynol-cyfrifiadurol (HCI) yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio cyfathrebu rhwng defnyddiwr a system cyfrifiadurol.

Rhyngwyneb wedi'i yrru gan ddewislen

- Mae rhyngwyneb wedi'i yrru gan ddewislen yn caniatáu i ddefnyddwyr ryngweithio gyda system gyfrifiadurol trwy gyflwyno cyfres o ddewisleni i'w defnyddio.

Rhyngwyneb wedi'i yrru gan y llais

- Mae rhyngwyneb wedi'i yrru gan y llais yn galluogi gwneud gorchymynion llais i system gyfrifiadurol.

Rhyngwyneb sensitif i gyffyrddiad

- Mewn rhyngwyneb sensitif i gyffyrddiad, gwneir gorchymynion i system gyfrifiadurol trwy gyffwrdd â sgrin y ddyfais gyda'ch bys neu ddefnyddio ysgrifbin.

Sganio disg

- Mae sganio disg yn rhaglen gyfleustod sy'n caniatáu i ddefnyddiwr gyflawni swyddogaethau amrywiol ar ddisg cyfrifiadurol, fel rhannu disgiau, rheoli gofod rhesymegol, newid llythrennau gyriant ac ati.

Gwneud copi wrth gefn

- Mae copïau wrth gefn yn golygu creu a storio copïau o ffeiliau rhag ofn y bydd cyfarpar yn methu neu gwneir niwed a allai achosi colli data.

Copi llawn wrth gefn

- Mae system wrth gefn llawn yn creu copi o bopeth ar y system, hyd yn oed os nad yw wedi newid ers y copi diwethaf.

Copi wrth gefn graddol

- Mae copi wrth gefn graddol yn creu copi o'r ffeiliau newydd yn unig, neu unrhyw ffeiliau sydd wedi newid ers y copi llawn diwethaf, ac mae'n llawer cynt i'w gwblhau na chreu copi llawn.